## T. GWYNN JONES y tu ol i lenni hen Eisteddfod

# Dyw'r hen Brifwyl ddim fel y buo hi

FE FUASAI'N dipyn o gamp i dre Corwen a'r cylch gynnal Eisteddfod Genedlaethol fel y mae honno heddiw, er bod yna bafiliwn digon nobl yno. Ond nid felly yn Awst 1919 — y steddfod genedlaethol gyntaf ar ôl cymhelri'r Rhyfel Mawr. Ac mae yna rhyw draddodiad 'cyntaf' ynglŷn ag eisteddfodau yng Nghorwen.

Un o steddfodau cyntaf Cymdeithas y Gwyneddigion oedd yr un a gynhaliwyd yng Ngwesty Owain Glyndŵr ar y sgwâr, yn 1789, a Twm o'r Nant yn stormio oherwydd iddo gael cam.

Ac yng Nghorwen y cynhaliwyd Eisteddfod Gnedlaethol gyntaf yr Urdd yn 1929, a'r gyntaf eto, ar ôl bwlch adeg yr Ail Ryfel Byd, yn 1946.

Ond, 'roedd cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yno yn 1919 yn dipyn o gamp. Cyn diwedd y rhyfel, yr oedd grŵp lleol wedi mynd ati i anfon deiseb at Gymdeithas yr Orsedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn gofyn am yr ŵyl — deiseb fer deg pwynt, yn sôn am y traddodiad eisteddfodol, mantais tre ganolog gyda threnau yn dod o bob cyfeiriad, pafiliwn ail yn ei faint i un Caernarfon (er y byddai angen ei ymhelaethu), ac yn amgau ymrwymeb gyfreithiol am y swm o £1,200 i ddangos eu bod o ddifri.

Ac fe ddaeth yr eisteddfod i Gorwen. 'Roedd Eisteddfod Gadeiriol Corwen yn ystod Gŵyl y Banc ddechrau Awst, eisoes mewn bod ers dros chwarter canrif — un o wyliau mawr y cyfnod, a phenderfynwyd cynnal yr ŵyl fawr ar wythnos gyntaf Awst, a gohirio'r ŵyl flynyddol am y tro. A hynny fu angau Eisteddfod Gadeiriol Corwen.

Bu gŵyl 1919 mor llwyddiannus, nes i'r Genedlaethol fabwysiadu wythnos gyntaf Awst fel dyddiau'r brifwyl. Fe lusgodd Eisteddfod Corwen ymlaen am ychydig o flynyddoedd, ond 'roedd yr ŵyl fawr yn denu, a daeth y traddodiad i ben.

* * * *

RHYW FANION o wybodaeth felly am ŵyl 1919 — yn fuan ar ôl diwedd y rhyfel, cyn i bethau ddod 'nôl i drefn. Bu'n rhaid cael hawl arbennig i gael papur i argraffu'r *Testunau* a *Rhaglen y Dydd* — fe aeth tair tunnell o bapur i argraffu rhaglenni'r Gymanfa, ac fe werthwyd 40,000 ohonynt.

Bu'n rhaid i Bwyllgor Bwyd Edeyrnion roi hawl i Ellis Roberts y Bwtshiar o Wyddelwern i ladd mwy o anifeiliaid i fwydo'r llu, a bu'n rhaid agor 'Milk Depot' arbennig yn y dre i gyflenwi llaeth at yr wythnos.

Fe drefnwyd 60 o drenau y dydd i mewn ac allan o orsaf Corwen — ar y G.W.R. o'r Bermo, ac o Wrecsam a Lloegr, ac ar yr L.N.E.R. o Ddyffryn Clwyd, ac fe godwyd pedwar platfform ychwanegol at y ddau oedd yno.

Gyda'r trenau fe ddaeth 3,600 ar y dydd Llun, 4,221 ar ddydd Mawrth, 4,112 ar ddydd Mercher, 10,580 ar ddydd Iau, a 3,900 ar ddydd Gwener.

Dychmygwch y rhain i gyd, a mwy, yn cerdded ar hyd un stryd Corwen o'r stesion i gae'r pafiliwn — a phedwar bwa anferth wedi eu codi ar draws y stryd yma ac acw i addurno'r dre.

'Roedd yno ddeg o 'telephone operators' yn gweithio amser llawn am yr wythnos, ac anfonwyd 224,000 o eiriau mewn negeseuau i'r wasg, a gwnaed 2,572 o alwadau ffôn gan enillwyr a chollwyr, ac eraill.

Holl dderbyniadau'r Eisteddfod oedd £8,496, ac o'r Gymanfa £1,048. Fe gostiodd £3,685 i ychwanegu at y Pafiliwn. Ond 'roedd y costau'n isel. Dim ond £748 oedd cyfanswm y gwobrwyon — a chredwch chi byth — £143 oedd y swm a roddwyd i holl feirniaid yr ŵyl. Dim ond cwta £37 oedd cost yr holl Orsedd am wythnos! Ebe un o wŷr y wasg am yr £8,496 o dderbyniadau, 'An amazing result considering the absence of Lloyd George,' a fethodd ddod ar y dydd Iau oherwydd galwadau yn ymwneud â diwedd y rhyfel. Mewn llythyr i'r papur lleol wedi'r ŵyl, dywedodd W. Llywelyn Williams, yr A.S.:

> 'Eisteddfod Corwen oedd yr orau, a chymryd popeth at ei gilydd, y bum i ynddi erioed. Roedd yno ddiffygion bid siwr, ond roedd yn eisteddfod ddiguro. Hwyl a dawn Gymreigaidd a Chymreig, trafod pethau pwysig i'r genedl, naws ac awyrgylch eisteddfodol ymhob cwr. A diolch, meddaf i, i'r Prif Weinidog am unwaith fethu dod, oherwydd profwyd fod yr eisteddfod yn ddigon mawr i fyw heb gynhorthwy uchelwyr, cyfoethogion ac enwogion — y werin biau hi, a hwy yw ei gwir noddwyr.'

* * * *

DO, FE ymestynwyd y Pafiliwn i ddal 10,000 o bobl a thalwyd dros £3,000 i Gwmni Woodhouse o Nottingham am hynny. Dyna'r tro cyntaf i Gwmni Woodhouse weithio i'r Eisteddfod, ac ni ddaeth y cysylltiad i ben hyd Eisteddfod Aberteifi yn 1976.

Ac mewn mis wedi'r steddfod bu sêl fawr yng Nghorwen i werthu deunydd yr estyniad — 100,000 o droedfeddi o bren, 1,500 o sheets sinc, a llu o gadeiriau.

Ac os buoch chi ym Mhafiliwn Corwen, fe welsoch y seinfwrdd pren mawr ar siâp hanner lleuad uwchben y llwyfan — fe godwyd hwnnw yn arbennig fel y gallai pawb glywed popeth heb gymorth meicroffon — ac fe gyfrifir y seinfwrdd hyd heddiw yn ddyfais effeithiol.

Cafwyd 236 o gynigion am englyn, 123 ar gyfansoddi dwy emyn dôn, 58 ar yr Unawd Soprano, 56 ar Unawd Piano agored, 54 ar yr Unawd Tenor, 55 ar yr Unawd Bariton, a 31 ar y Ddeuawd Tenor a Bas, 'Plant y Cedyrn'.

Crwys enillodd y Goron am Bryddest i Morgan Llwyd o Wynedd, ac fe aeth y Gadair i Cledlyn Davies, Cwrt Newydd. Cafodd anferth o gadair dderw o gynllun Kelt Edwards ac wedi ei cherfio gan un Elias Davies o 'Stiniog. Tybed ble mae hi heddiw? 'Roedd arni gerfiadau Celtaidd cymhleth, dau anferth o ben hwrdd corniog, un ar flaen pob braich, ac yn y panel cefn ar y gadair, y geiriau, 'Eisteddfod Genedlaethol Corwen, Blwyddyn Heddwch' o gwmpas cerfiad cain o golomen.

Ond dychmygwch seremoni'r cadeirio. Cledlyn yn cerdded i lawr y pafiliwn rhwng Elfed a Tryfan a Band y Gwarchodlu Cymreig yn chwarae 'See the Conquering Hero comes'!

Côr Rhydaman yn ennill y Prif Gorawl, a chôr o Nottingham yn ail. Un-ar-ddeg o gorau plant yno, Bwlchgwyn yn ennill a Nantyffyllon yn ail, a'r marciau'n amrywio o 174 i 111!

Fe ddaeth deunaw o Gorau Meibion i'r brif gystadleuaeth, canu am dair awr a hanner, a hanner awr o feirniadaeth wedi hynny. Côr Nelson yn gyntaf, a Thredegar yn ail, a'r gwobrau ond yn £50 a £10.

O'r deunaw côr, 'roedd chwech o'r de, a saith o Loegr — o leoedd fel Highfield and Camden, Gorton Manchester; Talk o' the Hills, Stafford; St. Helens; Caer; a Blackheath, Birmingham.

Dydd Gwener, Cymanfa Ganu pnawn a nos, a deg mil yno yng nghyfarfod yr hwyr. 'Roedd Mrs Lloyd George yno hefyd i dderbyn Peithinen ar ran ei gŵr — a gerfiwyd 'mewn llythrennau Celtaidd yn Niwyllfa Wledig Dyffryn Clwyd (cydnabyddedig fel canolfan hyfforddiadol i filwyr a morwyr ysig)'. Arni cerfiwyd saith englyn i Heddwch o waith Dyfed. Bu ei llun a'i hanes mewn rhifyn o'r *Casglwr*.

* * * *

YN Y WASG leol wedi'r steddfod, bu llythyr gan ŵr oedd yn cymharu Steddfod Corwen gyda Steddfod Llanelli 1895, ac yn dweud mai Steddfod 1919 oedd yr orau eto:

> '. . . *though there was more beer in Corwen during the week than ever before, and that every public house was crowded to its doors, there was no drunkeness nor any sign of it.*'

Ac eto:

> '*In spite of the fact that a good deal of English was spoken at the Corwen eisteddfod, it not only created but maintained a really Welsh national atmosphere, such as one does not experience at every eisteddfod. . . . The exclusion of English from the Eisteddfod would be fatal to the existence of the Eisteddfod as it is, and as the Welsh love it.*'

Ac yna â ymlaen i ganmol

> '. . . *the inoffensive assertions of the spirit of Welsh nationalism through the medium of Welsh recitations and songs for children and in recitations for men and women.*'

Ond 'doedd hi'n gyfnod od! Ar un olwg, fe fuaswn wedi rhoi'r byd am gael bod yno yn 1919, ac eto, o weld *Rhaglen y Dydd* a sylweddoli fod Côr yr Eisteddfod — ie, Côr Corwen a'r Cylch — ar y nos Fercher, wedi canu opera 'Blodwen' gan Joseph Parry yn gyfan gwbl yn Saesneg, a Madame Laura Evans Williams wedi canu 'Howell! Howell! Dost thou loiter', 'dwi'n ddigon hapus nad oeddwn i yno.

Diwedd y gân yw y geiniog. Fe wnaed elw o £1,376 yng Nghorwen; rhoddwyd £420 i goffrau'r Genedlaethol, a rhannwyd y gweddill yn lleol. A chan mai Steddfod Heddwch oedd hi, fe roddwyd £450 tuag at godi Cofeb yng Nghorwen i filwyr a laddwyd yn y rhyfel, ac £20 yr un i'r pwrpas yng Nghynwyd, Carrog a Gwyddelwern, a £100 i Gymdeithas Nyrsio Cylch Corwen.

O, ie, a dau gan punt i Gronfa'r Pafiliwn — ac mae hwnnw yn dal ar ei draed, a'i groeso i Big Daddy ac El Bandito yn amlycach na'i groeso eisteddfodol erbyn hyn.

## O Lydaw

MAE GENNYF gasgliad bach (1983–1989) 17 o ôl rifau *Bro Nevez*, sef cylchgrawn swmpus yr ICDBL (International Committee for the Defense of the Breton Language) cangen yr UDA ynghyd â rhai papurau / adroddiadau perthnasol eraill.

Y maent ar gael i unrhyw un sy'n barod i dalu'r cludiant.

Rhaid hel cerdyn ataf. Fyd neb yma yng Ngorffennaf neu Awst i dderbyn galwadau ffôn.

*David Greenslade,*
*2 Tŷ Isaf, Cefn Cribwr,*
*Pen-y-bont ar Ogwr,*
*Morgannwg Ganol CF32 0AU.*